

# E-fwletin Medrwn Môn



Rhif 5  
Medi  
2023

## Medrwn Môn yn cynnal ei Ddigwyddiad Rhwydwaith Trydydd Sector cyntaf 2023!!



Eleni roedd Medrwn Môn yn falch o ail-ddechrau eu Ddigwyddiadau Rhwydwaith chwarterol.

Yn y rhifyn diwethaf fe wnaethom gyflwyno Sheree ein Swyddog Trydydd Sector a Llesiant. Rhan o rôl Sheree yw ailsefydlu cyfarfodydd Rhwydwaith y Trydydd Sector ac mae hyn yn golygu dod â phobl at ei gilydd o amgylch mater a rennir yn y gymuned.

Roedd digwyddiad cyntaf Sheree yn ymwneud â sut y gallwn ddefnyddio technoleg i gadw pobl yn hapusach ac yn iachach gartref.

Bob tro y byddwn yn cynnal y digwyddiad rhwydwaith bydd yn ymwneud â thema a ddewisir gennych chi!

Os oes gennych chi faterion a rydych yn teimlo fod angen eu trafod, neu os hoffech fod yn rhan o ddigwyddiadau rhwydweithio yn y dyfodol, cysylltwch â Sheree

**Cymerwch olwg ar yr erthygl lawn i weld sut aeth y digwyddiad!!**



@medrwnmon

Ffôn: 01248 724944

Gwefan: [www.medrwnmon.org](http://www.medrwnmon.org)

E-bost: [post@medrwnmon.org](mailto:post@medrwnmon.org)



@medrwnmon



# Rhwydwaith Trydydd Sector

## Defnyddio Technoleg mewn Iechyd, Gofal a Lles i Bawb

Ar y 14eg o Fehefin 2023 cynhaliodd Medrwn Môn Ddigwyddiad Rhwydwaith Trydydd Sector ynglŷn â defnyddio technoleg mewn iechyd, gofal a lles. Mae technolegau digidol wedi datblygu'n gyflym yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac yn prysur ddod yn hanfodol o fewn y system gofal iechyd. Gall defnyddio technoleg yn y cartref fod â'r potensial nid yn unig i hwyluso rôl gofal iechyd yn y cartref ond hefyd i helpu unigolion i aros yn hapusach ac yn iachach am fwy o amser gartref.

Dyluniwyd y digwyddiad i greu trafodaeth ynghylch saith prif thema ein Prosiect Technoleg mewn Gofal, sef:

- Diogelwch yn y Cartref
- Diogelwch Cartref
- Diogelwch Personol
- Rhyngweithio cymdeithasol
- Iechyd a Ffitrwydd
- Dysgu
- Iechyd Medwl



Mynychodd 14 o fudiadau a grwpiau gan roi cyflwyniadau ar bob thema i dynnu sylw at lawer o'r gwaith da sydd eisoes yn digwydd yn y maes hwn. O'r trafodaethau ar draws y 7 thema, rydym wedi casglu'r holl wybodaeth ac wedi nodi 3 blaenoriaeth cylchol.

- **Cyfathrebu a Hygyrchedd:** roedd y rhai a oedd yn bresennol eisiau gwybod mwy am ba dechnoleg sydd ar gael a phwy sy'n ei darparu, sut mae pobl yn cael eu cyfeirio at wasanaethau a phrosiectau a sut mae gwybodaeth yn cael ei rhannu fel ei bod yn cyrraedd y bobl sydd ei hangen.
- **Hyfforddiant:** Yma roedd pobl eisiau gwybod a oedd cymorth i bobl sefydlu a defnyddio'r dechnoleg, sut y gallem helpu i gadw pobl yn ddiogel gan ddefnyddio technoleg ac a oedd unrhyw hyfforddiant ar gael
- **Cost:** Cwestiynau'n ymwneud â chyllid ar gyfer yr offer a'r costau rhedeg yn ogystal ag opsiynau ar gyfer benthyg offer a thaliadau rhyngrwyd

Yn dilyn y digwyddiad mae rhai cyfranogwyr wedi ymuno â Ceri Seeley, ein Swyddog Cymorth Digidol i weithio fel tîm i benderfynu sut y gellid mynd i'r afael â'r blaenoriaethau. Cadwch lygad ar wefan Medrwn Môn a'r cyfryngau cymdeithasol am ddiweddiadau!!



Cafodd y rhai a gymerodd ran yn y diwrnod gyfle hefyd i gymryd rhan yn y **Profiad Realiti Awtistiaeth**, sy'n darparu gwrs agoriadol ar yr effaith y mae awtistiaeth yn ei chael ar fywyd o ddydd i ddydd.

**"Roedd cael y profiad o Awtistiaeth yn help mawr i mi ddeall pa mor wahanol y gall y byd fod i'r rhai rwyf yn eu cefnogi"**



# Cyfarfod Blynyddol Medrwn Môn 2021-22

Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol ar 13 Mehefin yn Neuadd y Dref yn Llangefni, ac roedd yn amser i fyfyrion ar a dathlu llawer o'r gwaith caled a wnaed ar draws yr Ynys yn ystod diwedd Pandemig COVID.

Roedd y Siaradwr Gwadd, Llinos Medi Huws, Arweinydd y Cyngor yn canmol gwaith gwirfoddolwyr, grwpiau cymunedol a'r sector ehangach yn eu gallu i ymateb yn ystod y pandemig gan dynnu sylw at sut roedd gweithio mewn partneriaeth rhwng yr holl bartneriaid yn allweddol i'r llwyddiant o ran darparu cefnogaeth yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae ein Cyfarfod Blynyddol ar agor i bawb ei fynychu ac i'r rhai a'i fethodd, gellir cael copi o'n hadroddiad blynyddol. Os hoffech gael copi, cysylltwch â [post@medrwnmon.org](mailto:post@medrwnmon.org)



## Ydy eich mudiad neu grŵp cymunedol yn aelod o Medrwn Môn?

Oeddech chi'n gwybod y gallwch chi ddod yn aelod o Medrwn Môn AM DDIM?

Mae aelodaeth lawn ar gael i bob mudiad neu grŵp gwirfoddol a chymunedol sy'n weithredol ar Ynys Môn ac rydym yn diweddararu ein cronfa ddata aelodaeth bob dwy flynedd.

**Mae dod yn aelod llawn o Medrwn Môn, yn cynnig llawer o fanteision, gan gynnwys:**

- Hawliau pleidleisio llawn
- Derbyn ein e-fwletin chwarterol
- Digwyddiadau Rhwydwaith y Trydydd Sector
- Hyfforddiant defnyddiol ar gyfradd is
- Cyngor am ddim am gyllid a grant
- Llungopïo rhatach
- Cyfieithu am ddim hyd at 100 gair
- Hyrwyddo eich sefydliad
- Cyngor a gwybodaeth am ddim
- Tynnu sylw at eich grwpiau ar ein cyfryngau cymdeithasol

**Gallwch nawr gwblhau ffurflen aelodaeth Medrwn Môn ar lein drwy glicio [YMA](#)**

**Os hoffech gopi papur cysylltwch â Sheree ar 01248 724944 neu ebostio [sheree@medrwnmon.org](mailto:sheree@medrwnmon.org)**



# Grwpiau Cymunedol yn helpu i gyfrannu at Bolisi Cymunedau i Gymru

Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu Polisi Cymunedau i Gymru. Er mwyn sicrhau bod y polisi yn adlewyrchu Cymru gyfan, gwahoddwyd cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn i ymweld â Gogledd Cymru i gael blas ar yr hyn sy'n cael ei wneud ar lefel gymunedol ar draws yr Ynys. Fel rhan o'r gwaith hwn, gwahoddodd Medrwn Môn bum grŵp a sefydliad cymunedol i gwrdd â Llywodraeth Cymru a Staff Bwrdd, Gwasanaethau Cyhoeddus



yn ogystal â staff a Chynghorwyr o Gyngor Sir Ynys Môn, i ddweud wrthynt am eu profiadau o redeg prosiectau cymunedol, arddangos yr hyn sy'n gweithio'n dda ac egluro unrhyw heriau neu rwystrau y maent yn eu hwynebu wrth redeg prosiectau cymunedol.

Cynhaliwyd yr ymweliadau ar draws Ynys Môn a Gwynedd rhwng y 12fed a'r 14eg o Fehefin ac aethom i Tyddyn Môn, lle ymunodd cynrychiolwyr o Gynllun Tro Da Benllech a'r Cyffiniau, Iorwerth Arms (Bryngwran), Cynghair Seiriol a Fferm Tal Y Sarn (Dwyran).

Rhoddodd yr ymweliadau gyfle i'r grwpiau a'u defnyddwyr gwasanaeth gael sgysiau agored a gonest am ba mor bwysig oedd eu prosiectau'n lleol, sut maen nhw'n gweithio gydag eraill ac i ddangos pa faterion sy'n bwysig i gymunedau gwledig Cymru. Roedd hefyd yn gyfle i dynnu sylw at gryfderau yn ein cymunedau, yr hyn rydym yn ei gyflawni drwy weithio gyda'n gilydd, ac unrhyw rwystrau a heriau y mae ein cymunedau yn eu hwynebu wrth ddatblygu gwasanaethau. Yn ystod yr ymweliadau cafwyd amrywiaeth o drafodaethau gan wirfoddolwyr a staff o'r holl brosiectau yn ogystal â pherfformiad gan y Tyddyners!



*'Fel rhan o'n taith o amgylch prosiectau cymunedol yng Ngogledd-Orllewin Cymru, ymwelodd swyddogion Llywodraeth Cymru â nifer o brosiectau ar Ynys Môn. Cawsom ein plesio gan greadigrwydd ac arloesedd y gweithredu cymunedol ar draws ystod o brosiectau sy'n dangos yr ymrwymiad i gydweithio ar draws yr ynys. Roedd yn amlwg i [ni] fod y dull partneriaeth rhwng Medrwn Môn a'r Cyngor Sir wrth ddatblygu model ar gyfer cydweithio, gwneud y gorau o'r effaith y gall grwpiau cymunedol ei chael ac mae'n dysgu sy'n werth ei rannu ledled Cymru.'*

Liz Hawkin- Is-adran Cymunedau, Llywodraeth Cymru



# Sioe Môn Lwyddiannus arall !



## Dau ddiwrnod llwyddiannus yn Sioe Môn 2023!

Rydym wedi cael amser gwych ac wedi mwynhau croesawu pawb i'n stondin. Hoffem ddweud diolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi ein cefnogi eleni, dau ddiwrnod ffantastig llawn cyffro.



Unwaith eto eleni roedd uned symudol Medrwn Môn ar faes sioe Mona, roedd y staff ar gael i roi gwybodaeth a sgwrsio am wirfoddoli, Car Linc Môn, Linc Cymunedol Môn a'n gwaith gyda chymunedau.

Eleni roedd y cerbyd trydan hygyrch o Caergybi a'r Cylch gynllun Tro Da yn cael ei arddangos ar y maes, gan obeithio denu mwy o ddefnyddwyr a gyrwyr gwirfoddol.



Roedd pawb wedi mwynhau creu eu bathodynnau eu hunain, gan gynnwys Prif Weinidog Cymru, Mark Drakeford! Trefnwyd helpa drysor gyda thema 5 FFORDD I LLES yn gofyn i blant a phobl ifanc ymweld â stondinau yn gysylltiedig â'r 5 thema.

Diolch i Rhys Meirion (canwr opera Cymraeg a thenor clasurol) a Chris 'Flamebaster' Roberts am dynnu rafflau'r helpa drysor. Llongyfarchiadau i Jayden Jones o Lanberis ar gwblhau'r helpa drysor ac ennill y raffl ar y diwrnod cyntaf ac Oliver Plank am gwblhau'r helpa drysor ac am ennill y raffl yr ail ddiwrnod.



Diolch hefyd i Môn FM am adael i Awen ac Anne siarad yn fyw ar eu rhaglen radio!

Dywedodd Lyndsey Campbell-Williams ein Prif Swyddog Dros Dro



**“Mae sioe Môn yn gyfle gwych i'n holl staff fynd allan a hyrwyddo gwaith Medrwn Môn, i wneud cysylltiadau newydd ac i ddathlu holl waith caled y flwyddyn flaenorol! Diolch i'r holl staff am ddau ddiwrnod llwyddiannus arall”**



# Profi fod technoleg mewn gofal yn gweithio!


Mae'r prosiect Technoleg mewn Gofal yn edrych ar sut y gellir defnyddio gwahanol fathau o dechnoleg ac apiau i gefnogi pobl i reoli eu hiechyd a'u lles eu hunain, ac yn cynnwys Fel rhan o'r prosiect mae ganddom oriau clyfar i fesur lefelau gweithgaredd corfforol, dyfeisiau cartrefi SMART (bylbiau SMART, offer rheoli thermostat) a hefyd a dyfeisiau sy'n darparu gwybodaeth rithwir megis Amazon Alexa a dyfeisiau atsain.




Mae'r prosiect yn cynnig cyfnod prawf o offer i unigolion heb unrhyw gost dros y misoedd y cytunwyd arnynt.

Yn ogystal â chymorth gyda thechnoleg yn y cartref, mae tracwyr GPS hefyd yn profi i fod yn boblogaidd iawn, yn enwedig i'r rhai sy'n byw gyda dementia a'u teuluoedd. Mae llawer wedi dweud bod y tawelwch meddwl y mae'n ei roi iddynt wedi bod yn amhrisiadwy.

Os hoffech ragor o fanylion am y prosiect Technoleg mewn Gofal, cysylltwch â [ceri@medrwnmon.org](mailto:ceri@medrwnmon.org)



## Helpu i gadw pobl yn ddiogel gyda GPS Trackers



Mae Michael yn 70 oed ac wedi cael diagnosis dementia yn ddiweddar. Mae Michael a'i wraig yn mynychu rhai o'r grwpiau cymorth yn lleol, mae hyn yn rhoi amser i'r ddau i ffwrdd o'r tŷ a hefyd cyfle i sgwrsio a chael panad gyda ffrindiau. Ond gan fod Michael weithiau wedi drysu ac yn anghofio enwau lleoedd a lleoliadau fe benderfynon nhw ei bod hi'n bryd cael rhywfaint o help.

Yn dilyn atgyfeiriad gan un o'r grwpiau cymorth y maent yn eu mynychu, cafodd y cwpl drafodaeth gyda Ceri Seeley, Swyddog Cymorth Digidol Medrwn Môn. Roedd Ceri yn gallu eu cefnogi gyda phenderfyniadau ar ba fathau o dechnoleg allai eu helpu o gwmpas y tŷ ac yn eu cymunedau.

Ar ôl trafodaeth hir penderfynwyd yr hoffent dreialu'r traciwr GPS newydd, bydd hyn yn cefnogi'r cwpl dros y misoedd nesaf - a hyd yn oed os mai dim ond am dawelwch meddwl mae'r ddau yn gwybod y bydd yn helpu i gadw Michael yn ddiogel yn ei gymuned.

**Michael, 70**

# Clwb y Gorlan Ar-lein!



Mae gan Cwb y Gorlan yn Amlwch adeilad sy'n ased gwych yn y gymuned. Mae nhw eisiau gallu cael mwy o amwynderau ar gael i bobl leol. Cawsant drafodaeth gydag un o Gydlynwyr Asedau Lleol Medrwn Môn, Rhian Hughes, a sylweddolodd fod angen rhywfaint o gymorth technegol yn yr adeilad.

Yn dilyn atgyfeiriad gan Rhian, ymwelodd Ceri Seeley ein Swyddog Cymorth Digidol â'r grŵp i weld sut y gallai hi eu cefnogi orau. Yn dilyn sgwrs gyda Ceri penderfynodd y byddai'r grŵp yn elwa o gael gosod WiFi – a fyddai'n annog mwy o grwpiau i ddefnyddio eu hadeilad.

Gosododd Ceri ddyfais MiFi a cherdyn sim fel bod y rhai sy'n defnyddio'r adeilad bellach yn gallu cael mynediad i'r rhyngwrwd. Bydd hyn yn golygu gallu cynnig llawer o wasanaethau eraill nag o'r blaen, gyda'r grŵp o bosib yn edrych ar gynnal cyrsiau neu hyd yn oed nosweithiau ffilm yn yr adeilad.

## Brwydro yn erbyn unigrwydd gan ddefnyddio tabled Samsung



Cyfeiriwyd Jackie at Ceri, ein swyddog Cymorth Digidol gan ein Cydlynnydd Asedau Lleol, Rhian. Roedd Jackie wedi trafod gyda Rhian nad oedd hi wedi bod allan o'i chartref ers cyn y pandemig a oedd yn golygu ei bod wedi colli llawer o ddigwyddiadau cymdeithasol a fu hun gael effaith ar ar ei symudedd. Ond hefyd gwneud iddi deimlo yn unig ac ynysig.

Ar ôl trafodaeth gyda Rhian a Ceri, penderfynodd Jackie gymryd tabled Samsung ar fenthyg gan Medrwn Môn, a fyddai'n rhoi mynediad iddi i grwpiau cymdeithasol ar-lein ac yn caniatáu iddi wneud ei siopa a darllen y newyddion o'i chartref. Bydd hefyd yn rhoi cyfle i Jackie ddod i wybod am grwpiau yn y gymuned a chysylltu â phobl leol. Ymhen amser, bydd Jackie yn ceisio ymuno â grŵp lleol i ennill rhywfaint o hyder y mae mawr ei angen a mynd i'r afael â'i hunigrwydd.

**Jackie, 62**

# Cadw pobl mewn cysylltiad â Chludiant Cymunedol!



## Grant refeniw Trafnidiaeth Gymunedol

2837

Oriau o Wirfoddoli

Ar hyn o bryd mae 5 cynllun cludiant cymunedol ar draws Ynys Môn, ac yn cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr yn unig.

**Cynllun Tro Da Benllech, Cynllun Tro Da Seiriol, Linc Cymunedol Môn, Bryngwran Cymunedol a Chynllun Tro Da Cybi a Fali**

Mae gwirfoddolwyr y cynlluniau tro da yn defnyddio eu cerbyd eu hunain i gefnogi pobl i fynychu apwyntiadau iechyd, siopau, a gweithgareddau. Mae Medrwn Môn hefyd wedi cefnogi 3 o'r cynlluniau, sef Bryngwran, Seiriol ac Ynys Cybi, drwy sicrhau cyllid i brynu cerbydau sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn, gan alluogi mwy o bobl i ddefnyddio eu gwasanaeth.



3178

siwrneiau

Cysylltodd cwpl oedranus yn y pentref â Chynllun Tro Da Benllech a'r Cylch, oherwydd eu bod wedi gorfod rhoi'r gorau i yrru oherwydd rhesymau iechyd. Daethant atom am help iddynt allu cyraedd eu hapwyntiadau meddygol, a chymeryd y boneddwr i ddsbarth codwm yn wythnosol. Mae'r gyrrwr gwirfoddol yn casglu'r cwpl o'u cartref, yn mynd â nhw i'w hapwyntiad ac yn eu helpu yn ystod yr apwyntiad, yna mae'r gyrrwr yn aros y tu allan i fynd â nhw yn ôl adref ac yn sicrhau eu bod yn ddiogel y tu mewn i'w cartref cyn gadael.

73  
Gwirfoddolwyr




“ Dechreuon ni ddefnyddio'r Cynllun Tro Da fel y gallem fynychu apwyntiadau iechyd heb pryder neu anghysur. Rydym yn gwerthfawrogi y sylw a gofal caredig gan yr holl yrwyr”

500 +

o Pobl wedi cefnogi

### Mae Cyfeiriadur Cludiant Cymunedol Ynys Môn

yn gyfeiriadur digidol a phapur defnyddiol o holl gynlluniau Cludiant Cymunedol yr ynys gan gynnwys manylion cyswllt, cymhwyster, a ffioedd.



Edrychwch ar y Cyfeiriadur Trafnidiaeth **YMA**

8064

Milltiroedd wedi'u gorchuddio





# Sut mae'n mynd?

## (Cyflwr y Sector ar Ynys Môn)

**Galw pob mudiad gwirfoddol!!** Ydych chi ar bwyllgor o sefydliad gwirfoddol, elusen, grŵp cymunedol, clwb chwaraeon, grwpiau ffydd, menter gymdeithasol neu sefydliad dielw?

Mae Medrwn Môn angen eich help i ddeall yn well sut mae'r trydydd sector yn edrych, a sut y gall Medrwn Môn eich cefnogi chi orau wrth symud ymlaen.

- Ydych chi'n cael y gefnogaeth iawn gennym ni yma yn Medrwn Môn?
- A oes pethau y mae angen i ni wybod amdanynt?
- Sut gallwn ni weithio'n well gyda chi fel sector?



**Fel rhywun sy'n gysylltiedig â grŵp cymunedol/mudiad gwirfoddol, mae eich barn am ein cefnogaeth yn bwysig i ni.**



**Helpwch ni drwy gwblhau'r arolwg drwy ddilyn y**

**ddolen.**

**Os byddai'n well gennych gael copi papur, e-bostiwch [sheree@medrwnmon.org](mailto:sheree@medrwnmon.org) neu ffoniwch 01248 724944.**

“Os ydym yn deall sut olwg sydd ar y Trydydd Sector ar hyn o bryd, yna gallwn sicrhau ei fod yn symud i'r man lle mae ei angen fwyaf yfory.”



## Recriwtio a chyflogaeth Mwy Diogel

Roedd Medrwn Môn yn falch o gynnal digwyddiad ar y cyd ar Recriwtio a Chyflogaeth Mwy Diogel a chyflwyno'r Safonau Hyfforddi Diogelu Cenedlaethol ar ran, Gwasanaeth Gwahardd Datgelu, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru.

Yn dilyn y digwyddiad Recriwtio Mwy Diogel, roedd cyfranogwyr eisïau gwybod mwy am y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd - yn enwedig o ran y newidiadau sydd wedi digwydd gyda'r gwasanaeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Mae Medrwn Môn wedi gwahodd Carol Eland o'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn ôl i gyflwyno sesiwn lawn ar ddefnyddio'r gwasanaeth DBS i sicrhau Recriwtio Mwy Diogel i unrhyw un sy'n gweithio yn y sector gwirfoddol.



### Cyfle am ddim -

Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd / Medrwn Môn - Recriwtio Mwy Diogel

Dydd Llun, 18 Medi 2023 10:00 - 16:00

Neuadd y Dref Llangefni Sgwâr Bulkeley Llangefni LL77 7LR

[Pwyswch y ddolen](#) i archebu tocynnau ac am fwy o wybodaeth.



Disclosure & Barring Service

# Fforwm Pobl Hŷn Ynys Môn



Cynhaliwyd Fforwm Pobl Hŷn cyntaf y flwyddyn ar gyfer yr Ynys gyfan gan Gyngor Sir Ynys Môn yn M-SParc, Gaerwen ar 4ydd Gorffennaf 2023.


Mae'r fforwm Ynys-gyfan yn dod â chynrychiolwyr ynghyd o bob rhan o Ynys Môn i edrych ar themâu allweddol o'r fforymau lleol llai sy'n digwydd allan yn y gymuned trwy gydol y flwyddyn.

Y thema ar gyfer y fforwm hwn oedd cyfathrebu ac ymgysylltu ac roedd y fforwm yn cynnwys sawl cyfle i ddysgu a rhannu gwahanol ffyrdd o gyfathrebu ac ymgysylltu â'n cymunedau.

Roedd y sesiwn yn cynnwys siaradwyr gwadd o Gymunedau Digidol Cymru, roedd Medrwn Môn a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr hefyd yn bresennol ac yn rhoi cyflwyniadau craff ar sut i gyfathrebu ac ymgysylltu â chymunedau mewn modd mwy effeithiol a deniadol. Cafwyd cyflwyniad gan ein Swyddog Cyfathrebu Owen Jones ar gynllun Cyfathrebu Medrwn Môn i'r dyfodol.

Roedd cyfle hefyd i fynychwyr rwydweithio gyda'r llu o wahanol sefydliadau a oedd yn bresennol.

Roedd dros 50 o fynychwyr yn cynrychioli mwy na 30 o grwpiau, clybiau a sefydliadau yn bresennol.



Am y wybodaeth ddiweddaraf am Fforymau Lleol yn eich ardal chi, cysylltwch â'r Swyddog Datblygu Cymunedau **Sioned Young** ar **01248 751 832** neu **sionedyoung@ynysmon.llyw.cymru**, neu cadwch lygad allan ar gyfryngau cymdeithasol Cyngor Sir Ynys Môn am y newyddion diweddaraf.



CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL



Gwynedd a Môn  
age Cymru

# Mae'r Cynghreiriau ar draws yr Ynys wedi bod yn brysur, gadewch i ni gael golwg



Yn ddiweddar dechreuodd **Cynghrair Lligwy** weithio ar eu gardd gymunedol ym Moelfre, sydd wedi ei lleoli ar dir y neuadd gymunedol. Mae'r gymuned wedi bod yn gweithio'n galed yn dylunio, cynllunio ac yn awr yn adeiladu'r ardd gymunedol. Gofynnwyd i blant ysgol gynradd Moelfre roi syniadau am yr hyn yr oeddent am ei gynnwys a sut yr oeddent am i'r ardd edrych. Cymerodd y pwyllgor eu syniadau a lluniodd gynlluniau sydd bellach yn dod yn fyw gyda chymorth gwirfoddolwyr.



Mae **Cynghrair Aethwy** eisiau cynnwys pobl ifanc yn well yn y gwaith y maent yn ei wneud. Aeth Awen ac Anne draw i Ysgol David Hughes i ofyn i'r bobl ifanc am eu syniadau ar sut i gyflawni blaenoriaethau'r Gynghrair. Bydd y wybodaeth a gesglir yn cefnogi'r Gynghrair i symud ymlaen gyda'u dewisiadau.

Cynhelir cyfarfod nesaf Cynghrair Aethwy nos Fawrth 12/09/23 6.30pm yng nghanolfan gymunedol Penmynydd.



Mae **Cynghrair Bro Aberffraw** yn gweithio ochr yn ochr â Phrifysgol Bangor, ar brosiect cyd-gynhyrchu Naratifau Cymunedol. Mae'r prosiect hwn yn cynnwys gweithio gyda thrigolion yr ardal leol i ddiffinio eu cymuned a'u cefnogi i ddisgrifio sut mae'n edrych ac yn teimlo i fyw/gweithio yno (trwy ddulliau creadigol celf, ffotograffiaeth, ffilm). O hyn, bydd ganddynt ddealltwriaeth fwy cyfannol, cyfoethocach a chreadigol o'u cymuned, gan ganiatáu i'r Gynghrair nodi eu blaenoriaethau cymunedol.



Rhoddwyd y dasg i **Gynghrair Crigyll** o ddewis tair blaenoriaeth i weithio arnynt o'r dystiolaeth a gasglwyd o'r mapiau ar gyfer yr ardal, trafodwyd themâu'r dystiolaeth a theimlai'r rhai a fynychodd y dylai'r gymuned ehangach gael mewnbwn i'r penderfyniad terfynol ynghylch pa un i ddechrau. I symud hyn ymlaen creodd Medrwn Môn **arolwg** i bobl benderfynu ar y blaenoriaethau ac i gael rhywfaint o gadarnhad gan y gymuned ehangach ai dyma'r cyfeiriad y dylai'r Gynghrair fynd iddo.



Mae **Cynghrair Bro'r Llynnoedd** wedi bod yn brysur yn ariannu 4 grŵp cymunedol sy'n rhan o'r ward yn ddiweddar. Bu'r grwpiau canlynol yn llwyddiannus gyda'u cais am arian gan y Gynghrair - Grŵp Cymunedol y Fali, Meithrinfa Bodedern, Clwb Pêl-droed Iau Bodedern a'r LEGO build Church, Bodedern. Mae'r Gynghrair hefyd wedi bod yn cefnogi Cyngor Cymuned y Fali i wneud gwell defnydd o'i fannau gwyrdd – gydag un neu ddau o brosiectau newydd ar y gweill!



Mae Grant GwirVol Medrwn Môn wedi ariannu sawl prosiect ieuentid eleni i alluogi pobl ifanc i ddatblygu sgiliau a chael profiad yn eu cymuned leol. Dyma gipolwg o'r hyn mae'r bobl ifanc wedi bod yn ei wneud dros yr haf.....




## Maes Chwarae Llangaffo



Mae grŵp o bobl ifanc ymroddedig wedi sefydlu eu clwb garddio eu hunain yn eu parc lleol sydd newydd ei ddatblygu. Penderfynon nhw wario Grant GwirVol ar offer garddio a hadau i dyfu planhigion mewn gwely uchel a delltwaith. Maent i gyd wedi gweithio'n galed i gael yr ardal i edrych yn bert a deniadol ac maent hyd yn oed wedi dylunio eu crysau-t eu hunain ar gyfer y clwb. Prynodd y bobl ifanc hefyd offer chwaraeon gyda'r arian a chynnal clwb gweithgareddau i blant iau y pentref. Dywedodd y Grŵp Man Chwarae **'Gwych gweld ieuentid y gymuned mor barod i wirfoddoli eu hamser. Roeddent yn ardderchog, yn arddangos agwedd aeddfed ac yn annog y plant i gael llawer o hwyl!'**

## Grwp Cymunedol #CaruAmlwch

Defnyddiodd grŵp o bobl ifanc y cyllid i greu man eistedd ystyrlon yn rhandiroedd y gymuned er cof am wirfoddolwyr lleol. Treuliodd y bobl ifanc eu hamser yn peintio ac addurno'r fainc mewn lliwiau llachar, gan obeithio dod â gwên i'r rhai sydd wedi colli anwyliaid a chreu gofod i bawb ei fwynhau. Roedd y bobl ifanc yn falch o fod yn rhan o brosiect teimlad calonnog sy'n coffáu'r rhai sydd wedi rhoi o'u hamser i'r rhandiroedd a'r ardal leol.



Byddwn yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am brosiectau ieuentid eraill yn ein E-Fwletin nesaf!

# Prosiect Ieuenctid Dwyran

## Sesiynau 'MonActif' yn Hen Fecws

Rydym mor falch bod y grŵp gweithgaredd plant a phobl ifanc wedi mynd yn ei flaen o'r diwedd! Trefnwyd y sesiynau yn wreiddiol cyn Covid ond yn anffodus bu'n rhaid eu gohirio.

Diolch i'r Barri (MônActif) a'i dîm am redeg y grŵp.

**"Mae'r 10 wythnos o weithgareddau yn Nwyran wedi bod yn wych ac rwyf wedi cael barn glir ar weithgareddau ymgysylltu cymunedol gan fy mod yn bersonol wedi mynychu'r mwyafrif o'r sesiynau hyn ynghyd â'n hyfforddwy a'n hyfforddwy chwaraeon. Roedd yn wych gweld y niferoedd yn cynyddu o un wythnos i'r llall gyda'r nifer fwyaf o bobl yn mynychu'r gofrestr yn 22 sy'n wych, gyda lleiafswm o 16-17 o gyfranogwyr yn bresennol bob wythnos'**

Unwaith y daeth y sesiynau i ben roedd y cynghorwyr lleol eisiau darparu gweithgareddau pellach i bobl ifanc Dwyran, felly mae'r Cynghorwyr John Ifan Jones ac Arfon Wyn wedi darparu offer chwarae awyr agored i'r plant lleol ei ddefnyddio ar y cae ger yr hen ysgol, ar gael bob dydd 10yb - 7.30pm



## Diwrnod Cenedlaethol Chwarae

Cynhaliwyd Diwrnod Chwarae cenedlaethol yng nghlwb rygbi Llangefni ddechrau mis Awst a dathlodd Ynys Môn gyda'u digwyddiad awyr agored cyntaf.

Roedd yn ddiwrnod llawn hwyl yn llawn gweithgareddau a bwyd i deuluoedd lleol, cefnogwyd y diwrnod gan Gyngor Môn a Môn Actif a fu'n darparu gweithgareddau corfforol i'r plant a phobl ifanc, gan gynnwys cestyll neidio, paentio wyneb, gemau a sesiynau gydag elfennau gwyllt.

Diolch i bawb a alwodd draw i fws Medrwn Môn i gael sgwrs gyda ni ac am gymryd rhan yn y sesiwn tynnu llun!

Mae Diwrnod Chwarae Cenedlaethol yn ddiwrnod sy'n ymroddedig i ddathlu pŵer a phwysigrwydd chwarae. Fe'i cynhelir yn flynyddol bob mis Awst, ac mae'n gyfle i deuluoedd, cymunedau, a sefydliadau ddod at ei gilydd a chael ychydig o hwyl, codi ymwybyddiaeth o fanteision chwarae a chreu cyfleoedd i blant ac oedolion fel ei gilydd ryddhau eu dychymyg, creadigrwydd, a llawenydd. .



# Newyddion tryddyd sector

## Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd 2023

Gwahoddwyd Medrwn Môn i fynychu'r Eisteddfod Genedlaethol am ddiwrnod yn stondin Hwb y Trydydd Sector.

Cafodd Bethan a Sheree groeso cynnes yn Eisteddfod Genedlaethol Boduan, a chafodd y ddwy gyfle i rwydweithio a rhannu gwybodaeth am Medrwn Môn.

Roedd yn wych gweld nifer dda o sefydliadau yn yr Hwb, fe wnaethant rannu gwybodaeth a rhoi cyngor am eu gwasanaethau. Dyma rhoi a fynychodd y Hwb, Mantell Gwynedd, Gorwel, Loteri Genedlaethol, Dementia Gogledd Cymru oedd â'u stondin yn yr Hwb

Roedd y Hwb yn brysur gyda llawer o fynd a dod a phawb wedi mwynhau a rhannu gwybodaeth. Yn gyffredinol roedd yr Eisteddfod ym Moduan yn fwrlwm o gyffro, derbyniodd Bethan a Sheree wybodaeth werthfawr am fudiadau trydydd sector.



## Neuadd Goffa Llanfairpwll ar agor yn swyddogol!

Aethom i agoriad swyddogol y Neuadd Goffa yn Llanfairpwll ym mis Gorffennaf, bu'r digwyddiad yn llwyddiant ac roedd llawer yn bresennol.

Torrodd Elin Fflur y rhuban a chafodd pawb fwynhad o fynd o gwmpas y neuadd, bwyta ac yfed ychydig o win ac yna sgwrs gan Gerwyn James a soniodd am hanes yr adeilad a'r ardal.

Dilynwch nhw ar [facebook](#) i weld beth sydd ganddynt yn mynd ymlaen yn y ganolfan, o grwpiau gwnïo i'r clwb snwcer mae digon i'w wneud!

Cysylltwch â [llanfairpwll@outlook.com](mailto:llanfairpwll@outlook.com) am ragor o wybodaeth ac ymholiadau archebu.



# Mannau cynnes Gwelfor te prynhawn ac adloniant



Yn ddiweddar, cynhaliodd manau cynnes Gwelfor mewn partneriaeth â Cybi Events (Caergybi mewn Cytgord) de prynhawn gydag adloniant.

Mynychwyd y digwyddiad hwn yn dda gan dros 70 o bobl o wahanol grwpiau yn ein cymuned. Roedd y digwyddiad yn gyfle gwych unwaith eto i hyrwyddo'r manau cynnes yng ngwelfor a'i fanteision i'r gymuned ehangach.

***"Fe wnes i fwynhau'r prynhawn yma'n fawr; Rwyf wedi cwrdd â phobl nad ydw i wedi'u gweld ers blynnyddoedd! Roedd y bwffe a'r adloniant yn wych, uchafbwynt y prynhawn i mi oedd codi i ddawnsio gyda fy ffrindiau, rhywbeth dwi heb wneud ers 10 mlynedd! Mae heddiw wedi bod yn ddiwrnod cofiadwy iawn i mi."*** J (85 oed) a fynychodd ein te prynhawn.



# Gwasanaeth Cymorth Tai yn dathlu 10 mlynedd!

Ar y 30ain o Fehefin ymunodd Medrwn Môn â sefydliadau eraill o bob rhan o'r ynys i gefnogi Gwasanaeth Cefnogi Tai Cyngor Sir Ynys Môn i ddathlu eu pen-blwydd yn 10 oed. Cynhaliwyd y digwyddiad yn Neuadd y Dref yng Nghaergybi ac roedd yn gyfle gwych i drigolion lleol gwrdd â chynrychiolwyr o'r timau tai fel y Comisiynwyr Grant Cymorth Tai, Opsiynau Tai, Dyraniadau, Rheolwyr Ystadau, Budd-daliadau Lles a chynhwysiant ariannol.

Roedd cacennau ar werth hefyd a tombola yn codi arian i'r Banc Bwyd Trussell Trust!

Os hoffech gyfrannu i Banc Bwyd Ynys Môn Cliciwch ar y **ddolen** neu ffonio 07394964566 (9AM - 3PM)



Sheree a Ceri o Medrwn Môn (uchod)  
Tai Cyngor Sir Ynys Môn (Dde)



# Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus Cymru



MAE'N [www.bit.ly/AmseriSiaradIC](http://www.bit.ly/AmseriSiaradIC)  
**AMSER I SIARAD IECHYD CYHOEDDUS**


SGWRS GENEDLAETHOL NEWYDD

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru eisiau deall eich barn a'ch agweddau am bynciau iechyd cyfredol

Mae'r arolygon yn...

- Pob yn ail mis
- Arlein neu dros y ffôn
- 10-15 munud

Pynciau enghreifftiol wedi'u cynnwys hyd yn hyn...



SGAN I YMUNO



Am ddim ond awr y flwyddyn, fe allech chi ddylanwadu ar bolisiau iechyd cyhoeddus yng Nghymru!

16+ oed? Byw yng Nghymru?

Eich Cymru Eich Iechyd Eich Llais

Mynegwch eich barn a helpu i lywio polisi cyhoeddus i Gymru!

